OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2219

## Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) 2001

**Yr hawl i apelio**

**6.**—(1) Caiff person a dramgwyddir gan benderfyniad gan awdurdod bwyd i wrthod awdurdodiad neu i atal awdurdodiad neu i dynnu awdurdodiad yn ôl apelio i lys ynadon.

(2) Bydd adran 37(3), (5) a (6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn effeithiol mewn perthynas ag apelau o dan y rheoliad hwn fel y maent yn effeithiol mewn perthynas ag apêl o dan yr adran honno.

(3) Ni fydd tynnu awdurdodiad yn ôl neu atal awdurdodiad yn dod yn effeithiol nes i'r amser ar gyfer apelio yn erbyn hynny ddod i ben ac, os gwneir apêl, nes penderfynu ar yr apêl yn derfynol.